

# Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch

40 gweithgaredd  
i drawsffurfio  
ymroddiad,  
cymhelliant a  
chynhyrchedd  
myfyrwyr

Steve Oakes a Martin Griffin

*Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch*

Addasiad Cymraeg o *The A Level Mindset, Revised Edition* a gyhoeddwyd yn 2021 gan

Crown House Publishing

Crown Buildings, Bancyfelin, Caerfyrddin, SA33 5ND


[www.crownhouse.co.uk](http://www.crownhouse.co.uk)

a

Crown House Publishing Company CAC

PO Box 2223, Williston, VT 05495, USA

[www.crownhousepublishing.com](http://www.crownhousepublishing.com)



Cyhoeddwyd dan nawdd Cynllun Adnoddau Addysgu a Dysgu CBAC

© Steve Oakes a Martin Griffin, 2016, 2021 (Yr argraffiad Saesneg)

Mae Steve Oakes a Martin Griffin wedi datgan eu hawliau i gael eu cydnabod yn awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

© CBAC (Yr argraffiad Cymraeg hwn)

Cedwir pob hawl. Ac eithrio ar gyfer unrhyw ddefnydd a ganiateir dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ni cheir llungopïo, storio mewn system adalw, cyhoeddi, perfformio yn gyhoeddus, addasu, darlledu, trosglwyddo, recordio nac atgynhyrchu unrhyw ran o'r gwaith hwn ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, heb ganiatâd perchenogion yr hawlfraint ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau at Crown House Publishing Ltd.

Ffigur, t. 137: Meini Prawf Dysgu er Rhagoriaeth (*Learning for Distinction Criteria*) gan Goleg Oldham ac wedi'u defnyddio drwy ganiatâd caredig. Ffigur, t. 139: J. Sharples, B. Albers, S. Fraser ac S. Kime, *Putting Evidence to Work: A School's Guide to Implementation – Guidance Report* (Llundain: Education Endowment Foundation, 2019), t. 5. Ar gael ar: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/guidance-reports/implementation>. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd y Sefydliad Gwaddol Addysg.

Nid yw Crown House Publishing yn gyfrifol am gywirdeb na pharhad URLau gwefannau allanol na gwefannau trydydd parti y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn, ac nid yw'n gwarantu y bydd cynnwys y cyfryw wefannau yn gywir neu'n addas, ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

Data Catalogio Cyhoeddiadau y Llyfrgell Brydeinig

Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN: 978-178583664-0

Argraffwyd a rhwymwyd yn y Deyrnas Unedig gan CMP, Poole, Dorset

# Cynnwys

## Rhagarweiniad | 1

### Pennod 1. Gweledigaeth | 13

1. Ugain Cwestiwn | 22
2. Gwireddu Breuddwydion | 23
3. Eich Pen-blwydd yn 21 oed | 24
4. Creu eich Dangosfwrdd | 25
5. Y Diwrnod Perffaith | 26
6. Nodau CAMPUS | 27
7. Cyferbynnu Meddyliol | 29
8. Ffugio | 30

### Pennod 2. Ymdrech | 31

9. Y Raddfa 1–10 | 40
10. Wythnosau Gwaith | 42
11. Tair Rheol Arfer | 44
12. Adnabod eich Atalyddion | 46
13. Brogaod a Chanllawiau | 49
14. Y Rheol Deg Munud | 50
15. Dewis Mantra | 51
16. Grym Meddwl Os ... Yna | 52

### Pennod 3. Systemau | 55

17. Y Llinell Egni | 64
18. Y Clwb Brecwast | 65
19. Ychydig, Nid Gormodedd (neu'r Adolygiad Wythnosol) | 67
20. Y Rheol 2–4–8 | 69
21. MASA | 71
22. Siart Cynnydd Project | 72
23. Matrics Eisenhower | 73

24. Y Domino Arweiniol | 74

### Pennod 4. Ymarfer | 75

25. Yr Holiadur Adolygu | 86
26. Adnabod y Sgiliau | 88
27. Trefnwyr Graffig | 90
28. Blwch Leitner | 92
29. Dau Araf, Un Cyflym | 93
30. Cywir, Anghywir, Cywir | 95
31. Dysgu o Gamgymeriadau | 96
32. Mecanyddol yn erbyn Hyblyg | 98

### Pennod 5. Agwedd | 101

33. Dadansoddi Meysydd Grym | 111
34. Atal Meddyliau Negyddol | 112
35. Lladdwch eich Beirniad | 114
36. Yno ac yn Ôl | 115
37. Methu Ymlaen | 116
38. Y Gromlin Newid | 118
39. Prawf y Fampir | 121
40. Sefyll yn Dalsyth | 122

### Pennod 6. Hyfforddi | 125

### Pennod 7. Gwneud i hyn ddigwydd | 133

### Casgliad: Deg Syniad Terfynol | 165

- Cyfeiriadau | 169
- Mynegai | 175

# Rhagarweiniad

Wrth fynd i mewn i feddylfryd, rydych chi'n mynd i mewn i fyd newydd. Ym myd y nodweddion sefydlog, rhaid i chi brofi eich bod chi'n glyfar neu'n dalentog, a'ch dilysu eich hun er mwyn llwyddo. Ym myd y nodweddion sy'n newid, rhaid ymestyn eich hun i ddysgu rhywbeth newydd, eich datblygu eich hun. Dweck (2007), t. 14

Mae ein stori yn dechrau rai blynyddoedd yn ôl, mewn swyddfa yng ngwaelod adeilad.

Roedden ni'n edrych ar ganlyniadau Safon Uwch yr haf hwnnw – yn dioddef cyfnodau olaf ein taith ni i gyd. Y daith sy'n dechrau gyda nosweithiau di-gwsg a breuddwydion llawn pryderon ar ddiwedd mis Gorffennaf, yn troi'n drychineb llwyr erbyn dechrau mis Awst ac yn dod i ben gyda siom ddiwrnod y canlyniadau. Fel arfer mae'r achlysur hwn yn cynnig cymysgedd o lwyddiannau a siomedigaethau, yn hytrach na gorfoledd neu fethiant llwyr.

Wrth edrych yn fanwl ar y graddau a pharatoi ein dadansoddiad ar gyfer y pennaeth y flwyddyn honno, roedd un ffaith yn fwy amlwg nag eraill. Doedd dim cysylltiad uniongyrchol i'w weld rhwng llwyddiant ar ddiwedd Blwyddyn 11 a llwyddiant ar Safon Uwch. Wrth edrych yn ôl, mae hyn yn swnio'n gwbl groes i'r disgwyl ac ar yr un pryd, yn sylw hollol resymegol. Ond ar y pryd roedd fel petai'n ffaith arwyddocaol. Roedden ni wedi tybio y byddai'r myfyrwyr hynny a oedd wedi llwyddo ar ddiwedd Blwyddyn 11 yn parhau ar y trywydd hwn ac yn llwyddo unwaith eto ar ddiwedd Blwyddyn 13.

Yn hytrach – ac rydyn ni'n siŵr eich bod chi wedi sylwi ar hyn hefyd – digwyddodd rhywbeth arall: gwnaeth rhai myfyrwyr gynnydd mawr rhwng 16 ac 18, gan saethu i fyny o'u canlyniadau eithaf cyffredin ym Mlwyddyn 11 i gael canlyniadau eithriadol ym Mlwyddyn 13. Roedd eraill a oedd wedi perfformio'n dda iawn yn 16 oed wedi mynd ymlaen i ennill graddau cyffredin ar ddiwedd eu cyrsiau Safon Uwch. Roedd ffactorau allanol i'w hystyried, wrth gwrs, ond hyd yn oed ar ôl ni beidio â chynnwys y bobl ifanc hynny a oedd wedi wynebu adegau trawmatig, roedd gennym ni niferoedd mawr iawn o fyfyrwyr a oedd fel petaen nhw wedi taro nenfydau ac eraill a dorrodd drwodd yn sydyn.

## Myfyrwyr nenfwd a myfyrwyr torri drwodd

Ar ddechrau'r flwyddyn academaidd roedd gennym ni gynllun. (Hynny yw, pentwr o nodiadau brysiog a thaenlen. Roedden ni heb greu cynllun manwl tan yn ddiweddarach o lawer.)

Yn ystod tymor yr hydref fe ddechreuon ni astudio beth oedd yn gwneud i'r 'myfyrwyr nenfwd' beidio â gwneud cynnydd, a beth oedd yn gwneud i'r 'myfyrwyr torri drwodd' wella'n sydyn. Aethon ni ati i gynnal pob math o waith ymchwil i benderfynu'r ffactorau hyn. Yn gyntaf, pennu dau grŵp sampl: grŵp o fyfyrwyr torri drwodd a oedd yn gwneud yn well na'u gradd darged yn ystod y tymor cyntaf – roedd y rhain yn mynd ati o ddifrif ac yn ennill graddau gwyach; a grŵp nenfwd a oedd yn tangyflawni'n sylweddol ar ôl dechrau'n araf iawn. Yna rhoddwyd holiaduron i fyfyrwyr y ddau grŵp, gan eu harsylwi yn eu gwersi a gwerthuso'u perfformiad academaidd blaenorol. Cymerodd y myfyrwyr ran mewn grwpiau ffocws a chafodd eu data sylfaenol eu dadansoddi. Edrychon ni ar nifer eu pwyntiau adeg TGAU, yr ysgol lle roedden nhw wedi cymryd eu TGAU, cyfran y cymwysterau lefel 2 yn seiliedig ar bortffolios, y graddau a enillwyd yn yr hyn roedden ni'n tybio fyddai'r pynciau allweddol (e.e. Cymraeg, Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth), prydlondeb a phresenoldeb.

Dyma'r pwynt cyntaf a ddaeth yn gwbl amlwg i ni: ar ôl astudio'r data a dadansoddi'r cynnwys yn fanwl, roedd yn amlwg nad

oedd cysylltiad rhwng perfformiad yn eu harholiadau TGAU a bod yn fyfyrwr torri drwodd, nac yn wir, yn fyfyrwr nenfwd. *Roedd hi fel petai nad oedd perfformiad blaenorol yn gwarantu perfformiad yn y dyfodol.* Doedd un grŵp ddim yn llawn o fyfyrwyr a oedd wedi cael graddau TGAU uchel a chypyrddau yn llawn gwobrau, a'r llall yn cynnwys myfyrwyr a oedd wedi cael graddau mwy cyffredin. Roedd y grŵp nenfwd yn cynnwys cyfran dda o fyfyrwyr a oedd wedi gwneud yn dda iawn yn eu harholiadau TGAU. Roedd y grŵp torri drwodd yn gymysg iawn hefyd. Yn gryno, roedden ni'n methu gweld unrhyw wendidau gwybyddol penodol a oedd yn pennu ymlaen llaw berfformiad gwael yn yr arholiadau Safon Uwch. Doedd dim problemau yn ymwneud â llythrennedd neu rifedd, er enghraifft; na phatrwm o berfformiad gwael mewn pwnc penodol.

Roedd hyn yn groes i'r hyn roedd rhai o'n hathrawon yn ei ddweud wrthon ni, a'r math o esboniadau am berfformiad myfyrwyr roedden ni wedi'u clywed mewn ystafelloedd athrawon mewn saith sefydliad dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai athrawon yn aml yn cynnig esboniad gwybyddol am danberfformio. Er enghraifft, roedd y myfyrwr yn 'wan'. Doedd y myfyrwr 'ddim wedi cael gafael ar y pwnc'. Doedd y myfyrwr 'ddim yn meddwl fel gwyddonydd' (neu ddaearyddwr neu gymdeithasegwr – dewiswch chi). Dywedodd un athrawes wrthon ni sawl blwyddyn yn ôl, 'Yn fy mhwnic i, rydych chi'n gallu gwneud hyn yn reddfodol neu braidd ddim o gwbl.' Ar y cyfan, dyma'r crynodeb gorau o'r farn gyffredinol. Wrth i ni ddadansoddi'r grwpiau nenfwd a'r grwpiau torri drwodd, y

data ansoddol roedden ni wedi'u casglu a roddodd gyfres o batrymau i ni yn lle hynny – y wybodaeth am arferion y myfyrwyr, eu trefn arferol, eu hagweddau a'u hymagweddau at astudio. Roedd fel petai'r rhain oedd y ffactorau a oedd yn pennu llwyddiant. Mae Paul Tough yn crynhoi hyn yn dwt iawn yn y sylw canlynol: 'Mae economegwyr yn cyfeirio at y rhain fel sgiliau anwybyddol (*non-cognitive*), mae seicolegwyr yn eu galw nhw'n nodweddion personoliaeth, ac mae'r gweddill ohonon ni weithiau yn meddwl amdany'n nhw fel cymeriad' (Tough, 2013, t. 5).

Ar y dechrau, roedd union ystyr cymeriad yn niwlog, i ni o leiaf. Roedd cymryd nodiadau manwl i'w weld yn ffactor, er enghraifft. Roedd bod yn daclus a chadw adnoddau dysgu yn drefnus yn ymddangos yn bwysig hefyd. Roedd ymrwymiad i astudio'n annibynnol yn allweddol, felly hefyd agwedd gadarnhaol, brwdfrydedd, a bod â nod. Roedd gan y myfyrwyr torri drwedd lawer iawn o'r nodweddion a'r ymddygiadau hyn ond doedden nhw ddim yn amlwg yn y myfyrwyr nenfwd. Ac roedd hyn oll, cofiwch, heb ystyried eu perfformiad blaenorol.

Ar y dechrau, doedden ni ddim yn siŵr iawn beth i'w wneud â'r wybodaeth hon. Gan fod y deunydd ansoddol yn cynnwys sylwadau am ymddygiadau, roedd yn anodd ei fesur, ei roi mewn grŵp neu ei gategoreiddio – ac roedd mynd i'r afael â hwn yn anoddach fyth. Felly dechreuon ni chwilio am bobl a oedd wedi dod ar draws problemau tebyg ac a oedd wedi darganfod sut i'w datrys. Daeth yn amlwg bod nifer mawr o'r unigolion hyn – ac roedd eu

gwaith yn pwyntio i'r un cyfeiriad.

## Sefyll ar ysgwyddau cewri

Roedd llawer iawn o ymchwil diddorol dros ben wedi'i wneud dros yr ugain mlynedd neu fwy blaenorol, ond doedden ni ddim wedi edrych arno'n fanwl iawn. Mae'n anodd i athrawon neu arweinyddion wybod ble mae dechrau, a hwythau'n gweithio oriau hir heb lawer o gyfle i bori drwy gyfnodolion a phapurau academaidd.

Os yw hynny yn eich cynnwys chi, rydyn ni wedi dewis tri chyfrannwr o bwys a roddodd sicrwydd i ni a'n rhyfeddu wrth i ni ddechrau darllen. Rydyn ni wedi'u rhoi yn nhrefn amser isod. Mae pob un ohonyn nhw, yn eu meysydd eu hunain, yn cynnig man cychwyn clir a diddorol sy'n argyhoeddi. Mae'n werth amlinellu rhai o agweddau allweddol eu damcaniaethau, gan eu bod yn sail i lawer o agweddau gwahanol ar y model Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch. Maen nhw hefyd wedi rhoi'r dystiolaeth, yr hyder a'r cymhelliant i ni ddatblygu ein model ymyriad ein hunain.

### Clough et al. (2002)

Mae Peter Clough a'i dîm yn gweithio ddim ond ychydig filltiroedd oddi wrthon ni ym Mhrifysgol Fetropolitan Manceinion, felly mae'n addas ein bod ni'n dechrau gydag ef. Mae ymchwil Clough i wydnwch meddyliol wedi'i addasu'n bennaf o'r byd chwaraeon, ond mae tystiolaeth gynyddol yn awgrymu bod modd rhoi'r model hwn ar waith yn effeithiol ym myd addysg (Clough a Strycharczyk, 2014). Rydyn ni wedi bod yn

# Rhagarweiniad

ddigon ffodus i drafod y materion hyn ag ef ar sawl achlysur yn ddiweddar.

Mae dadl Clough bod gwydnwch meddyliol wrth wraidd llwyddiant yn un rymus iawn ac mae'n cynnig model pedwar ffactor: her, ymrwymiad, hyder a rheolaeth.

- » Mae her yn disgrifio safbwynt unigolyn ar unrhyw fath o her. Ydy'r unigolyn yn ystyried her yn gyfle i ddatblygu neu yn fygythiad?
- » Mae ymrwymiad yn cyfeirio at y gallu i ddyfalbarhau i gyrraedd nod tymor hir.
- » Mae dwy ran yn perthyn i hyder: hyder yn eich gallu eich hun a hyder mewn pobl eraill.
- » Mae dwy ran i reolaeth hefyd – rheolaeth dros fywyd a rheolaeth emosiynol. Mae'n disgrifio ymdeimlad yr unigolyn y gall reoli cyfeiriad ei fywyd ei hun a dylanwadu arno, ynghyd â rheoli ei ymatebion i emosiwn dwys.

Dadl Clough yw bod gwydnwch meddyliol yn nodwedd hyblyg, ac mae St Clair-Thompson et al. (2015) wedi dangos bod myfyrwyr sy'n wydn yn feddyliol yn fwy tebygol o ennill graddau uwch, mae eu presenoldeb yn well ac mae eu hymddygiadau yn dangos agwedd fwy cadarnhaol.

Hynny yw, yr *ymddygiadau astudio* sy'n bwysig. Wrth gwrs, roedd hyn yn taro tant gyda ni. Roedd ein hymchwil ein hunain o'r dyddiau cynnar yn ategu'r safbwynt hwn, ac yn y cyfnod ers hynny mae wedi'i ategu dro ar ôl tro.

## Dweck (2007)

Mae Carol Dweck yn enw cyfarwydd heddiw, felly mae'n debygol y byddwch yn gwybod rhywbeth am ei gwaith. Roedd yn enw eithaf newydd i ni yn y dyddiau cynnar. Os nad ydych chi'n gyfarwydd â hi, dyma grynodedb byr o'i syniadau. Mae ei hymchwil yn awgrymu bod credoau am allu a deallusrwydd yn amrywio'n fawr, a bod y credoau mae pobl ifanc yn eu mabwysiadu yn gallu effeithio'n sylweddol ar eu cyrhaeddiad.

Mae hi'n dadlau bod 'meddylfryd' penodol gan unigolion ynghylch eu gallu. Ar un pen i'r continwrm mae'r rheini sy'n credu bod ganddyn nhw feddylfryd 'sefydlog'. Mae'r unigolion hyn yn tybio bod eu deallusrwydd wedi'i gyfyngu i bwynt penodol. Felly, maen nhw'n osgoi sefyllfaoedd heriol oherwydd eu bod nhw'n ofni methu. Maen nhw'n gwneud llai o ymdrech yn ystod tasgau anodd er mwyn amddiffyn eu hunan-werth.

Ar y pen arall i'r continwrm mae pobl â meddylfryd 'twf'. Mae'r rhain yn credu bod deallusrwydd yn hyblyg ac y gallwch chi wella lefel eich gallu drwy weithio'n galed. Maen nhw'n rhoi eu hunain mewn sefyllfaoedd heriol ac yn gweithio drwyddyn nhw, gan wrando ar adborth a gweithredu arno. Maen nhw'n ystyried bod methiant yn gyfle i dyfu ac felly maen nhw'n ymddwyn mewn ffordd wahanol iawn mewn ysgol neu goleg. Hynny yw, mae'r ddau fath o fyfyrwr yn gweithio'n wahanol, yn astudio'n wahanol ac yn meddwl yn wahanol. Roedd canfyddiadau Dweck yn ategu ein hastudiaethau cynnar, gan ddechrau llenwi rhai o'r bylchau yn y syniadau.



## Duckworth et al. (2007)

Mae gwaith Angela Lee Duckworth wedi dod yn boblogaidd iawn ers ei sgwrs TED yn 2013, 'The Key to Success? Grit'. Mae'r sgwrs wedi'i gwyllo dros chwe miliwn gwaith erbyn hyn ac wedi esgor ar drafodaethau diddorol mewn ysgolion. Mae Adran Addysg UDA yn diffinio dyncwch fel, 'dyfalbarhad i gyflawni nodau tymor hir neu lefel uwch yn wyneb heriau a rhwystrau, gan ysgogi myfyrwyr i ddefnyddio'u hadnoddau seicolegol, fel eu meddylfryd academiaidd, eu rheolaeth ymdrechgar, a'u strategaethau a'u tactegau' (2013: vii).

Mae Duckworth yn dadlau bod y nodwedd anwybyddol hon, dyncwch, yn allweddol i lwyddo a chyflawni mewn sawl maes ac yn chwarae rhan bwysicach i ragfynegi llwyddiant na deallusrwydd. Hynny yw, roedd hithau, fel nifer o bobl eraill, wedi dangos y ffordd i ni.

## Rhoi'r ddamcaniaeth ar waith

Ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf honno roedden ni'n argyhoeddedig mai ymddygiad, arferion ac agweddau at astudio oedd y ffactorau pwysicaf mewn penderfynu llwyddiant myfyrwyr. Aethon ni ati i ddadansoddi canlyniadau'r flwyddyn ganlynol o'r newydd. Roedd gennym ni fyfyrwyr ymroddedig, llawn cymhelliant ag arferion astudio da – a nhw oedd y rhai â'r canlyniadau gwirioneddol gyffrous. Roedd eraill, er gwaethaf eu perfformiadau arbennig ym Mlwyddyn 11, wedi methu cyrraedd y nod – myfyrwyr a oedd wedi colli eu cymhelliant, yn anhrefnus neu'n cael eu digalonni yn rhy hawdd. Y pwynt cadarnhaol oedd bod yr holl ymchwil

roedden ni wedi'i archwilio wedi dangos ei bod hi'n bosibl dysgu'r arferion hyn a'r mathau hyn o feddylfryd ac ymddygiad.

Ond roedd gennym ni broblem:

1 Roedd ein hastudiaethau wedi dangos bod rhestr hyblyg iawn o nodweddion yn gysylltiedig â llwyddiant: grwpiau ffrindiau, dyncwch, agwedd gadarnhaol, nodiadau trefnus, nifer y papurau arholiad a gafodd eu cwblhau o dan amodau wedi'u hamseru, agwedd. Roedd yr arbenigwyr hefyd yn cyfeirio at amrediad o nodweddion gwahanol, gan roi disgrifiad gwahanol o bob un. Y canlynol oedd y rhai y cyfeiriwyd atyn nhw amlaf, mae'n debyg:

- » Dyfalbarhad, gwydnwch a dyncwch.
- » Hyder ac optimistiaeth.
- » Cymhelliant, ysfa ac uchelgais.
- » Goddefgarwch a pharch.
- » Gonestrwydd ac urddas.
- » Cydwybodolrwydd, chwilfrydedd a ffocws.

Hefyd, roedd ymchwil helaeth yn dangos bod cysylltiad cryf rhwng y nodweddion hyn a llwyddiant academiaidd. Darllenwch waith Snyder et al. (2012) a Weber a Ruch (2012) os oes diddordeb gennych chi, ond doedd dim cysondeb. Roedd yn rhaid i ni benderfynu sut fath o bobl roedden ni am i'n myfyrwyr fod a beth roedden ni am iddyn nhw ei wneud. Roedd yn rhaid i ni ddod o hyd i ffordd gyflym a chofiadwy i fynegi hynny – gan ein bod yn ymwybodol fod angen i ni gael ateb a oedd yn symlach o lawer na'r broblem.

# Rhagarweiniad


2 Ar ôl penderfynu ar ein rhestr, roedden ni eisiau dysgu'r sgiliau a'r ymddygiadau hyn mewn ffordd gyflym a hawdd a oedd yn ennyn diddordeb. Roedd angen i ni fynd i blith y myfyrwyr a newid eu ffordd o feddwl, ymddwyn a gweithio. Ond roedden ni'n methu dod o hyd i unrhyw adnoddau dysgu parod, hawdd eu defnyddio i'w rhoi iddyn nhw. Dim byd a oedd yn gwneud i fyfyrwyr fod yn llai beirniadol o'u gwendidau mewn ffordd ddefnyddiol, er enghraifft; dim byd a oedd yn gwneud i fyfyrwyr ymateb i her mewn ffordd fwy cadarnhaol. Os oedd y fath beth yn bodoli, doedd neb yn ei rannu.

## Yr ateb: *VESPA*

Wrth i ni weithio ar y problemau hyn dros y blynyddoedd canlynol daeth y system *VESPA* i'r amlwg. Nid dyma'r system gyntaf i ni ei datblygu (ar y dechrau roedd gennym ni fodel syml iawn a oedd yn gofyn i bob dysgwr wneud tri pheth, nes i ni sylweddoli nad oedd hwn yn ddigon cynnil), ond dyma'r gorau rydyn ni wedi gallu ei greu ar ôl blynyddoedd o weithio'n agos gyda myfyrwyr, yn ceisio datblygu model clir. Rydyn ni wedi bod i wraidd datblygu cymeriad ac wedi awgrymu pum ymddygiad a nodwedd angenrheidiol er mwyn i fyfyrwyr llwyddo.

Mae ein gwaith yn awgrymu bod myfyrwyr llwyddiannus yn sgorio'n uchel o ran y nodweddion canlynol:

- » **GWELEDIGAETH (V)** – maen nhw'n gwybod beth maen nhw'n dymuno'i gyflawni.
- » **YMDRECH (E)** – maen nhw'n astudio'n annibynnol ac yn rhagweithiol am oriau lawer.
- » **SYSTEMAU (S)** – maen nhw'n trefnu eu hadnoddau dysgu a'u hamser.
- » **YMARFER (P)** – maen nhw'n ymarfer ac yn datblygu eu sgiliau.
- » **AGWEDD (A)** – maen nhw'n ymateb yn adeiladol i rwystrau.



Mae'r nodweddion hyn yn bwysicach o lawer na gwybyddiaeth. Rydyn ni wedi gweld bod bylchau sylweddol gan fyfyrwyr nenfwd yn un neu ragor o'r nodweddion hyn. Hefyd, er gwaethaf eu llwyddiant academiaidd yn 16 oed, mae ein hastudiaethau yn dangos y bydd y dysgwyr hyn yn taro'r nenfwd ar Safon Uwch os na fyddan nhw'n rhoi sylw i'r gwendidau hynny ac yn eu cryfhau. Ar y llaw arall, gall myfyrwyr sy'n sgorio'n uchel o ran y nodweddion uchod dorri drwodd ar Safon Uwch, ac maen nhw yn gwneud hynny, gan ddatgloi perfformiad sy'n mynd ymhell y tu hwnt i'w graddau targed.

**Dydy rhwystrau, perfformiad gwael, methiant nac anhawster academiaidd ddim yn atal myfyrwyr sy'n dymuno llwyddo. Maen nhw'n dysgu o'r profiad ac yn symud ymlaen.** Martin (2010), t. 22

## Gweithgareddau VESPA

Yn niffyg dim byd arall, rydyn ni wedi treulio nifer o flynyddoedd yn gweithio ar gyfres o weithgareddau sy'n helpu myfyrwyr i ddatblygu'r pum nodwedd hyn. Mae nifer mawr o bobl wedi cyfrannu eu meddyliau, eu syniadau, eu beirniadaeth a'u myfyrdodau. Mae gormod o lawer i'w henwi yma, ond rydyn ni eisiau diolch i bob un ohonyn nhw am eu cymorth – roedd ganddyn nhw ran allweddol mewn datblygu'r model.

Mae pum pennod gyntaf y llyfr yn ymdrin â phob elfen o'r model VESPA, gan roi cyfres o

adnoddau i chi eu darparu o dan bob un o'r penawdau.

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio er mwyn:

- » Codi ymwybyddiaeth am effaith nodwedd ar llwyddiant posibl.
- » Annog rhywfaint o fyfyrion personol ar bresenoldeb neu absenoldeb y nodwedd honno yn y myfyriwr.
- » Ennyn diddordeb y myfyriwr i gymryd rhan mewn tasg sy'n datblygu ei ymarfer – myfyrdod, trafodaeth, sgwrs hyfforddiant (coetsio – coaching) neu arbrawf.

Mae pob sesiwn wedi'i chynllunio i gymryd chwarter awr i ugain munud i'w chwblhau. Mae nifer ohonyn nhw yn hyblyg; gellir eu darparu i unigolyn neu grŵp bach o fyfyrwyr, grŵp tiwtor neu garfan gyfan. Mae'r tasgau eu hunain wedi'u hysgrifennu ar gyfer myfyrwyr, felly mae'r ymagwedd at astudiaethau a chyfnodolion academiaidd yn llai ffurfiol ac yn fwy llac, ond rydyn ni'n rhoi'r manylion yn y rhagarweiniad i bob adran neu yn nodiadau'r athrawon, lle rydyn ni hefyd yn esbonio sut rydyn ni wedi defnyddio'r gweithgareddau a beth oedd eu heffaith. Rydyn ni wedi cynnwys wyth tasg o dan bob pennawd, gan roi cyfanswm o 40 i chi ddechrau arbrofi â nhw.

Dydy'r casgliad ddim yn gynhwysfawr. Rydyn ni wedi dewis y gweithgareddau hyn gan eu bod ymhlith yr hawsaf i'w harwain ac wedi cael yr effaith fwyaf.

## Defnyddio'r llyfr hwn

Ym mhym pennod cyntaf y llyfr, rydyn ni'n eich tywys chi drwy bob elfen o'r model *VESPA*. Mae pob pennod yn dilyn patrwm tebyg: byddwn ni'n cyflwyno elfen y model ac yn trafod rhai egwyddorion sylfaenol rydyn ni wedi'u darganfod wrth i ni weithio gyda myfyrwyr. Efallai fod nifer o'r egwyddorion hyn yn amlwg, ond aeth tipyn o amser heibio (a sawl camgymeriad!) cyn iddyn nhw ddod yn amlwg i ni. Gobeithio y gallan nhw gynnig llwybr byr i chi wella eich dulliau ymyriad. Ar ôl yr egwyddorion sylfaenol, rydyn ni'n darparu nodiadau i athrawon ar y gweithgareddau sy'n dilyn. Ein gobaith yw bod y rhain nid yn unig yn pwysleisio hyblygrwydd yr adnoddau ond yn disgrifio sut rydyn ni wedi llwyddo i'w defnyddio hefyd. Mae croeso i chi gadw at y rhain neu eu hanwybyddu – dydyn nhw ddim yn gyfarwyddiadau manwl. Chi sy'n adnabod eich myfyrwyr orau.

Mae Pennod 6 yn edrych ar sut i ddefnyddio model *VESPA* i hyfforddi (coetsio) myfyrwyr yn unigol. Un o ganlyniadau braf datblygu'r model *VESPA* yw bod adnabod problemau myfyrwyr yn dod yn broses gyflymach o lawer. Mae sgysiaid a oedd yn gymhleth, yn heriol neu'n troi mewn cylchoedd yn y gorffennol wedi dod yn haws o lawer eu harwain. Mae canlyniadau myfyrwyr unigol sy'n wynebu anawsterau wedi dod yn fwy penodol a mesuradwy o lawer. Rydyn ni'n eich tywys chi drwy'r camau ar gyfer defnyddio'r model i drafod materion â myfyrwyr unigol a chanfod atebion.

Mae Pennod 7 yn edrych ar y broses o wreiddio'r system ar draws eich sefydliad. Yn y bennod hon, rydyn ni'n awgrymu rhai ffyrdd y gallech chi eu defnyddio i reoli'r newid diwylliannol a systematig sydd ei angen i gael tîm o diwtoriaid neu athrawon i gofleidio'r ethos, yr ymagwedd a'r deunyddiau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch. Mae cynnwys y bennod hon yn seiliedig yn bennaf ar ein harferion a'n hymagweddau ein hunain. Nid yw'n gwbl ddiogel rhag methiant, wrth gwrs – yn hytrach mae'n adrodd sut gallech chi godi ymwybyddiaeth o'r angen i gael gwell systemau datblygu cymeriad a chwricwla, a dechrau'r broses o gynllunio a gwreiddio hyn gyda thîm o staff.

Yn olaf, rydyn ni'n rhannu deg syniad sy'n ceisio crynhoi Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch. Rydyn ni'n gobeithio bod y rhain yn gweithio lawn cystal i'n hatgoffa o'r hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni ar y cyd a sut gallwn ni fynd ati i rymuso ein dysgwyr.

## Gair am ein hysgol

Bydd cyd-destun fydd bwysicaf i chi wrth ddarllen hwn, felly dyma'r manylion: mae'r dulliau hyn wedi cael eu datblygu yn chweched dosbarth ysgol gyfun o tua 400 o fyfyrwyr. Y gofynion mynediad yw pum gradd A\*–C. Rydyn ni'n chwilio am bedwar B – B ym mhob un o'r pynciau mae'r myfyrwr yn dymuno eu hastudio. Mae gennym ni rai myfyrwyr â chanlyniadau TGAU arbennig iawn – er enghraifft, deg neu un ar ddeg o raddau A\*. Mae myfyrwyr eraill sy'n dod atom ni â rhai graddau B, C, D ac ambell radd E. Mae'r

holl fyfyrwyr yn dechrau pedwar cwrs, ac mae pob un yn profi rhyw fersiwn o'r model *VESPA*.

Adeg ysgrifennu hwn, mae ein myfyrwyr Blwyddyn 12 (fel grŵp blwyddyn) wedi cael gradd 1 ALPS am bum mlynedd yn olynol. Ar y cyd, mae ein myfyrwyr Blwyddyn 13 yn sgorio gradd 2 ac maen nhw wedi gwneud hynny am bum mlynedd (ac un eithriad – gradd 1 rai blynyddoedd yn ôl. Dydyn ni ddim wedi llwyddo i gyrraedd y safon honno ers hynny!). Ar yr un pryd, rydyn ni wedi gweld cynnydd, flwyddyn ar ôl blwyddyn, mewn graddau uchel, graddau A\*, a chyfraddau presenoldeb a chadw myfyrwyr.

Dydy model *VESPA* ddim yn esbonio'r holl bethau hyn, wrth gwrs. Mae ein myfyrwyr yn gymharol lwcus: mae ganddyn nhw dîm staff addysgu ymroddedig, arweinwyr canol medrus ac uwch-dîm arwain nodedig – ac mae'r holl bethau hyn yn sicr o'u plaid. Fel unrhyw sefydliad arall, mae angen gwella ambell agwedd, ond yn gyffredinol, mae'r hinsawdd a'r diwylliant yn gadarnhaol ac yn dangos dyhead.

Ond roedd naid fawr i'w gweld yn ein perfformiad ac mae hyn wedi'i hatgyfnerthu ers i ni gyflwyno *VESPA*. Mae'n gyflym, yn glir, yn hawdd ei roi ar waith ac rydyn ni'n gobeithio y gallai wneud yr un peth i chi.

Mae gan Steve Oakes a Martin Griffin dros 40 mlynedd o brofiad ar y cyd o addysgu a hyfforddi. Mae'r ddau wedi darganfod rhywbeth pwysig – nid y myfyrwyr sydd â chanlyniadau TGAU gwych, o anghenraid, sy'n dod yn eu blaenau yn dda ac yn gyson ar Safon Uwch. Mae rhai myfyrwyr yn neidio o gael canlyniadau cyffredin ym Mlwyddyn 11 i gael canlyniadau ardderchog ym Mlwyddyn 13. Mae eraill fel petaen nhw'n 'taro nenfwd'. Ond pam?

Wrth iddyn nhw geisio ateb y cwestiwn hwn daeth y system **VESPA** i'r amlwg. Mae Steve a Martin wedi mynd at wraidd datblygu cymeriad ac wedi adnabod pum ymddygiad a nodwedd allweddol mae'n rhaid i bob myfyriwr eu cael er mwyn llwyddo.

## GWELEDIGAETH – YMDRECH – SYSTEMAU – YMARFER – AGWEDD

Mae'r nodweddion hyn yn well o lawer na gwybyddiaeth am ragfynegi llwyddiant academaidd. Ym **Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch**, mae Steve a Martin yn rhannu cyfrinachau ynghylch hyfforddi myfyrwyr i ddatblygu'r nodweddion hyn, ac yn eu helpu i addasu eu hymddygiad a'u meddylfryd er mwyn gwireddu eu potensial. Yn y gyfrol hon, mae'r awduron yn cyflwyno amrywiaeth o astudiaethau achos a chngor defnyddiol ar weithredu effeithiol i arwain ysgolion tuag at roi'r model VESPA ar waith.

**Yn y llyfr hwn, mae 40 dull cadarn, cymwysadwy ac ymarferol sydd wedi'u cynllunio i greu dysgwyr llawer mwy gwydn, brwdfrydig, trefnus a phenderfynol.**

Dylid llongyfarch Oakes a Griffin a diolch iddyn nhw am adnodd ymarferol, perthnasol a chefnogol iawn.

**John West-Burnham, Athro er Anrhydedd Arweinyddiaeth Addysgol, Prifysgol Caerwrangon**

Casgliad trawiadol o berlau sydd wedi eu pecynnu ar ffurf sy'n hynod o ddefnyddiol.

**Dave Harris, Cyfarwyddwr Busnes, Independent Thinking Limited, awdur ac ymgynghorydd**

Mae'r llyfr yn fwy na chywir o gynghorion; mae'n ymagwedd ymarferol rymusol ac optimistaidd a fydd yn helpu myfyrwyr i ddod yn ddysgwyr sy'n myfyrio mwy ac yn rheoli eu hastudiaethau yn well.

**Geoff Barton, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau'r DU**

Llyfr hygyrch a difyr – fe wnaeth i mi feddwl o ddirif am fy null o addysgu Safon Uwch.


**Alex Quigley, athro, Ysgol Huntington, awdur Teach Now! English**

Dull gwirioneddol gadarnhaol ac ysgogol i bob pennaeth chweched dosbarth.

**Caroline Lee, Pennaeth Chweched Dosbarth a Phennaeth Cynorthwyol, Coleg Chweched Dosbarth Brighthouse**

Mae *Meddylfryd ar gyfer Safon Uwch* wedi llwyddo i gynnwys ymchwil ac ymarfer mewn canllaw gwych i ddefnyddwyr. Bydd yn adnodd gwerthfawr i fyfyrwyr, athrawon, rhieni a gofawlyr.

**Yr Athro Peter Clough, Adran Seicoleg Gymhwysol, Prifysgol Fetropolitan Manceinion**



Hefyd ar gael

### **Meddylfryd ar gyfer TGAU**

40 gweithgaredd i drawsffurfio ymroddiad, cymhelliant a chynhyrchedd disgyblion  
ISBN: 978-178583648-0

### **Meddylfryd ar gyfer TGAU – Llyfr Gwaith**

40 gweithgaredd i drawsffurfio ymroddiad, cymhelliant a chynhyrchedd disgyblion  
ISBN: 978-178583665-7

 [www.crownhouse.co.uk](http://www.crownhouse.co.uk)

ISBN-13: 978-178583664-0



9 781785 836640

Education Teaching Skills